**Cynnwys**


1 Protocol yr Arglwydd Faer a'r Dirprwy Arglwydd Faer
2 Sut mae Cynghorwyr a Swyddogion yn ymdrin ag Ymgeiswyr Cynllunio
3 Teitl yr Arglwydd Faer neu'r Dirprwy Arglwydd Faer mewn Gohebiaeth i Gynghorwyr
4 Mynediad gan Aelodau'r Cyhoedd i Ystafelloedd Pleidiau Gwleidyddol ac Ardaloedd Eraill i Gynghorwyr
5 Gohebiaeth Cynghorwyr
6 Protocol Ymateb i Ohebiaeth Cynghorwyr


# 1 Protocol yr Arglwydd Faer a'r Dirprwy Arglwydd Faer

## 1 Cyflwyniad

1.1 Ar 22 Mawrth 1982, cyflwynodd EM y Frenhines Elizabeth II freinlythyrau i ddinas Abertawe gan godi statws y Maer i statws Arglwydd Faer. Bu Awdurdod Unedol Dinas a Sir Abertawe a sefydlwyd ar 1 Ebrill 1996 yn llwyddiannus drwy gael statws y Ddinas a'r Arglwydd Faer wedi eu hailgyflwyno ar 29 Mawrth 1996.

1.2 Dangosir geiriad go iawn y breintlythyrau isod:

"*Elizabeth the Second by the Grace of God of the United Kingdom of Great Britain and Northern Ireland and of our other Realms and Territories Queen Head of the Commonwealth Defender of the Faith To all to whom these presents shall come, Greeting.Know ye that our will and pleasure is and We do hereby declare and ordain that from and after the date of these presents the Mayor of the City of Swansea and his successors in office shall be styled entitled and called LORD MAYOR OF SWANSEA And we do hereby authorise and empower the Mayor of the City of Swansea and his successors in office henceforth at all times to assume and use and to be called and to be named by the style title and appellation of Lord Mayor of Swansea and to enjoy and use all and singular the rights privileges and advantages to the degree of a Lord Mayor in all things duly and or right belonging. In witness whereof we have caused these our letters to be made patent. Witness Ourself at Westminster the twenty second day of March in the thirty first year of our reign*".

1.3 Mae protocol yr Arglwydd Faer a'r Dirprwy Arglwydd Faer yn ceisio cynnwys pob agwedd ar gymhwyster, enwebu ac ymddygiad yr Arglwydd Faer/y Dirprwy Arglwydd Faer.

1.4 Rhoddir dogfen 'Protocolau ac Arweiniad Dinesig' i bob Arglwydd Faer/ Dirprwy Arglwydd Faer. Darperir y ddogfen gan Swyddfa'r Arglwydd Faer ac fe'i cynhelir gan y rheolwr Marchnata Dinesig a Chorfforaethol.

## 2 Cymhwyster i fod yn Arglwydd Faer/Ddirprwy Arglwydd Faer

2.1 Ar gyfer y cyfnod y caiff Arglwydd Faer/Dirprwy Arglwydd Faer ei ethol, rhaid iddo barhau'n gynghorydd Dinas a Sir Abertawe.

2.2 O'r eiliad y mae'r person hwnnw'n gorffen bod yn gynghorydd Dinas a Sir Abertawe, mae hefyd yn gorffen bod yn Arglwydd Faer/Dirprwy Arglwydd Faer yn awtomatig.

2.3 Os caiff yr Arglwydd Faer/Dirprwy Arglwydd Faer presennol ei atal neu ei atal yn rhannol rhag bod yn gynghorydd gan y Pwyllgor Safonau, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a/neu Banel Dyfarnu Cymru ni fydd yn cyflawni unrhyw un o ddyletswyddau'r Arglwydd Faer/Dirprwy Arglwydd Faer.

3 **Meini prawf ar gyfer enwebu Arglwydd Faer a Dirprwy Arglwydd Faer**

3.1 Mae'n RHAID i gynghorwyr fodloni'r **meini prawf** canlynol cyn cael eu henwebu'n Ddirprwy Arglwydd Faer/Arglwydd Faer:

a) Rhaid i ymgeiswyr ar gyfer swydd yr Arglwydd Faer a'r Dirprwy Arglwydd Faer fod yn aelodau sy'n gwasanaethu ar y cyngor a chanddynt yr hyd gwasanaeth hwyaf **(Atodiad A1**).

**Sylwer:** Os caiff ymgeisydd ei atal neu ei atal yn rhannol rhag bod yn gynghorydd, yna nid yw'n bodloni'r meini prawf ar yr adeg honno.

3.2 Bydd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd yn hysbysu arweinwyr y pleidiau gwleidyddol a'u dirprwyon drwy e-bost a yw'r ymgeisydd(wyr) yn bodloni'r meini prawf.

4 **Cyfanswm Hyd Gwasanaeth Cynghorwyr**

4.1 Caiff cynghorwyr eu hethol i swydd Dirprwy Arglwydd Faer ac Arglwydd Faer yn seiliedig ar gyfanswm hyd eu gwasanaeth gyda Chyngor Dinas a Sir Abertawe a'i awdurdodau blaenorol. Mae **Atodiad A1** (Y Rhestr) yn amlygu "Cyfanswm hyd gwasanaeth cynghorwyr gyda Dinas a Sir Abertawe a phob un o'i awdurdodau blaenorol" (Fel yr oedd ar y dyddiad a argraffwyd ar **Atodiad A1**).

4.2 Bydd gwasanaeth cydamserol ar fwy nag un o awdurdodau blaenorol Cyngor Dinas a Sir Abertawe yn cyfrif fel un cyfnod o wasanaeth h.y. Os oedd cynghorydd yn Aelod Etholedig gyda Chyngor Bwrdeistref Dyffryn Lliw a Chyngor Sir Gorllewin Morgannwg yn ystod 1990-1994, 4 blynedd yn unig fyddai'n cael eu cyfrif tuag at gyfanswm hyd gwasanaeth cynghorydd yn ystod y cyfnod hwnnw.

4.3 Os yw cynghorydd wedi torri'i wasanaeth â Dinas a Sir Abertawe neu unrhyw un o'i awdurdodau blaenorol, yna caiff amser pob cyfnod o wasanaeth eu hadio er mwyn cadarnhau cyfanswm hyd y gwasanaeth. Am fanylion cyfnod(au) gwasanaeth cynghorwyr gyda Dinas a Sir Abertawe a'i awdurdodau blaenorol, ewch i www.abertawe.gov.uk/cynghorwyr

4.4 Os yw cynghorydd wedi crynhoi gwasanaeth gydag awdurdod arall, yna ni chyfrifir yr amser hwnnw gan nad yw'r amser wedi'i dreulio'n cynrychioli pobl Cyngor Dinas a Sir Abertawe.

4.5 Anrhydeddir cynghorydd unwaith â'r teitl Dirprwy Arglwydd Faer/Arglwydd Faer.

4.6 Os oes gan ddau neu fwy o gynghorwyr yr un hyd gwasanaeth, penderfynir ar yr enwebiad fel a ganlyn:

a) Rhwng y cynghorwyr dan sylw;

b) Bydd y cynghorwyr dan sylw yn bwrw coelbren.

5 **Gweithdrefn ar gyfer enwebu Arglwydd Faer/Dirprwy Arglwydd Faer**

5.1 Unwaith yr ystyrir bod cynghorydd yn bodloni meini prawf i'w enwebu'n Arglwydd Faer/Ddirprwy Arglwydd Faer, dyma fydd y weithdrefn:

a) Bydd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd yn ymgynghori ag arweinwyr pleidiau gwleidyddol a'u dirprwyon (y mae gan bob ohonynt bleidlais) drwy e-bost i benderfynu a yw ymgeisydd(wyr) yn briodol. Penderfynir a yw ymgeisydd yn briodol ar sail unigol. Gall ystyriaethau gynnwys a ganfuwyd bod ymgeisydd wedi torri'r Côd Ymddygiad, a oedd y toriad yn un difrifol a pha gosb a roddwyd, os cafwyd un. Mae ystyriaethau eraill yn cynnwys a gafwyd y cynghorydd yn euog o drosedd ddifrifol neu a yw wedi pledio'n euog iddo;

b) Os ceir **penderfyniad unfrydol** fod yr ymgeisydd(wyr) yn briodol, cyflwynir adroddiad i'r cyngor;

c) Os **nad oes penderfyniad unfrydol**, yna gelwir cyfarfod o Weithgor y Cyfansoddiad (GyC) ynghyd. Bydd GyC yn ystyried priodoldeb yr ymgeisydd(wyr) a phenderfynu pa gamau gweithredu i'w cymryd yn seiliedig ar y protocol.

6 **Prawf Priodoldeb**

6.1 Mae'r Prawf Priodoldeb yn ceisio penderfynu ar briodoldeb ymgeisydd(wyr) a enwebir ar gyfer rôl y Dirprwy Arglwydd Faer a'r Arglwydd Faer. Mae'n fesur o'u priodoldeb ar yr adeg honno. Gall cwestiynau gan Weithgor y Cyfansoddiad gynnwys a yw'r ymgeisydd(wyr) yn destun unrhyw ymchwiliad gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru mewn perthynas ag unrhyw achos o dorri'r Côd Ymddygiad, unrhyw gosbau a roddwyd, unrhyw achos llys neu unrhyw fater arall y mae'n ei ystyried yn berthnasol.

6.2 Gan ddibynnu ar ganlyniad paragraff 6.1 uchod, gall Gweithgor y Cyfansoddiad glywed sylwadau gan yr ymgeisydd cyn gwneud penderfyniad terfynol.

6.3 Amlinellir pwerau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a Phanel Dyfarnu Cymru yn **Atodiad B1** i'r adroddiad hwn.

6.4 Os ystyrir nad yw ymgeisydd yn briodol ar gyfer rôl yr Arglwydd Faer neu'r Dirprwy Arglwydd Faer, caiff ei roi ar "y rhestr" yn unol â'u hynafedd a byddant yn destun Prawf Priodoldeb yn y rownd ganlynol o enwebiadau ar gyfer Arglwydd Faer/Dirprwy Arglwydd Faer.

7 **Adroddiad Gweithgor y Cyfansoddiad i'r cyngor**

7.1 Bydd Gweithgor y Cyfansoddiad yn cyflwyno adroddiad i'r cyngor a fydd yn argymell yr ymgeisydd priodol ar gyfer rôl y Dirprwy Arglwydd Faer/yr Arglwydd Faer i'r cyngor. Bydd yr adroddiad yn enwebu un cynghorydd ar gyfer rôl y Dirprwy Arglwydd Faer ac un cynghorydd ar gyfer rôl yr Arglwydd Faer.

7.2 Mewn blwyddyn lle ceir **Etholiad Llywodraeth Leol**, bydd trydydd neu bedwerydd argymhelliad sy'n ceisio penderfyniad i enwi'r 5 cynghorydd nesaf a fydd yn gymwys os na chaiff yr enwebiadau cychwynnol eu hail-ethol. Penodir y

5 cynghorydd ychwanegol yn unol â'r protocol.

7.3 Pan gaiff cynghorydd ei ethol i swydd Dirprwy Arglwydd Faer, yna byddai'r person hwnnw'n dod yn Arglwydd Faer yn y flwyddyn ddinesig ganlynol, yn amodol ar y Prawf Priodoldeb.

## 8 Rôl y cyngor

8.1 Bydd y cyngor yn derbyn adroddiad Gweithgor y Cyfansoddiad ynghylch enwebiadau ar gyfer Arglwydd Faer a Dirprwy Arglwydd Faer. Bydd yn ystyried a ddylid derbyn argymhellion Gweithgor y Cyfansoddiad neu beidio.

8.2 Mewn blwyddyn pan gynhelir **Etholiad Llywodraeth Leol**, gofynnir i'r cyngor dderbyn enwebiadau ar gyfer y 5 cynghorydd nesaf dan y protocol hwn er mwyn cael safle syrthio'n ôl awtomatig os na fydd yr enwebiadau cychwynnol yn cael eu hail-ethol. Byddai'r syrthio'n ôl awtomatig yn golygu y bydd y cynghorydd nesaf cymwys a fu'n destun y Prawf Priodoldeb gan Weithgor y Cyfansoddiad ac a basiodd y prawf yn cael ei ethol i swydd Arglwydd Faer/Dirprwy Arglwydd Faer yn ôl yr angen.

8.3 Os na fydd y cyngor yn derbyn argymhellion Gweithgor y Cyfansoddiad, dylid gohirio'r mater tan naill ai gyfarfod cyffredinol y cyngor neu gyfarfod arbennig y cyngor er mwyn i Weithgor y Cyfansoddiad ystyried y prawf priodoldeb ar gyfer y cynghorydd nesaf ar y rhestr yn seiliedig ar hyd ei wasanaeth.

## 9 Gohirio Cyfnod yn y Swydd

9.1 Gall cynghorydd ofyn i'w gyfnod yn y swydd gael ei ohirio am unrhyw gyfnod o amser neu hyn yn oed am gyfnod amhenodol o amser. Fodd bynnag, rhaid i'r fath gais gael cefnogaeth y rhan fwyaf o arweinwyr y pleidiau gwleidyddol. Os bydd nifer cyfartal yn cefnogi ac yn gwrthwynebu, bydd Gweithgor y Cyfansoddiad yn ystyried y mater.

9.2 Unwaith y bydd cynghorydd wedi cwblhau'r cyfnod a ohiriwyd, cânt eu rhoi yn ôl ar y Rhestr Hynafedd yn unol â'u hynafedd. Bydd yn dilyn y person nesaf ar y rhestr i fod yn Ddirprwy Arglwydd Faer ond ni chaniateir iddo gymryd lle'r person nesaf ar y rhestr os yw'r cyfnod tan yr amser dethol nesaf yn llai na 6 mis.

## 10 Teitl a Chadwyn Swydd yr Arglwydd Faeres/Cydymaith yr Arglwydd Faer/y Dirprwy Arglwydd Faeres/Cydymaith y Dirprwy Arglwydd Faer

10.1 Rhoddir Teitl a Chadwyn Swydd yr Arglwydd Faeres/Cydymaith yr Arglwydd Faer/y Dirprwy Arglwydd Faeres/Cydymaith y Dirprwy Arglwydd Faer mewn Cyfarfod Seremonïol o'r cyngor yn flynyddol.

10.2 Gall unrhyw berson arall fynd gyda'r Arglwydd Faer/Dirprwy Arglwydd Faer i unrhyw ymrwymiadau dinesig y byddai'r un cwrteisi a blaenoriaeth yn cael eu cynnig iddynt, fodd bynnag, ni ellir gwisg0 Cadwyn y Swydd.

## 11 Ymddygiad yr Arglwydd Faer/Dirprwy Arglwydd Faer yn ystod ei Gyfnod yn y Swydd

11.1 Os codir amheuaeth ynghylch ymddygiad yr Arglwydd Faer/Dirprwy Arglwydd Faer yn ystod ei gyfnod yn y swydd, dylid dweud wrth y Prif Weithredwr, y Swyddog Monitro, Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd ac Arweinydd y

Blaid Wleidyddol berthnasol am yr ymddygiad.

11.2 Fodd bynnag, os gall yr ymddygiad honedig arwain at ymchwiliad gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru mewn perthynas ag unrhyw achos o dorri'r Côd Ymddygiad, unrhyw gosbau a roddir, unrhyw achos llys neu fater arall yr ystyrir ei fod yn berthnasol, yna dylai'r achwynydd gyfeirio'r mater at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru neu'r heddlu, fel y bo'n briodol.

11.3 Caiff yr honiad ei drosglwyddo i Weithgor y Cyfansoddiad er mwyn iddo ystyried a oes angen iddo gymryd camau yn ei gylch ar unwaith. Dylai'r grŵp ystyried y pwynt y tybir bod pobl yn ddieuog ac ni ddylai wneud unrhyw benderfyniadau i rwystro'r sail honno o'r gyfraith. Fodd bynnag, gall Gweithgor y Cyfansoddiad benderfynu ar unrhyw gosb briodol yn seiliedig ar y Prawf Priodoldeb yn dilyn canlyniad ymchwiliad yr Ombwdsmon neu'r Heddlu (os oes un).

12 **Atal o Swydd fel Cynghorydd**

12.1 Os caiff cynghorydd ei atal rhag cyflawni'i swydd fel cynghorydd am gyfnod ei amser yn dilyn achos o dorri Côd Ymddygiad Cynghorwyr, rhaid dilyn y camau gweithredu canlynol:

a) Ni fyddai cynghorydd sydd wedi'i atal, ei atal yn rhannol neu ei anghymwyso'n bodloni'r meini prawf i fod yn Arglwydd Faer/Ddirprwy Arglwydd Faer mwyach, a byddai felly'n gadael y swydd yn awtomatig.
b) Caiff y mater ei gyfeirio'n awtomatig at Weithgor y Cyfansoddiad er mwyn iddo ystyried a ddylid penodi Arglwydd Faer, Dirprwy Arglwydd Faer etc. newydd.

13 **Ymddygiad Cydymaith yr Arglwydd Faer/Cydymaith y Dirprwy Arglwydd Faer/Yr Arglwydd Faeres/Dirprwy Arglwydd Faeres yn ystod ei Chyfnod yn y Swydd**

13.1 Os codir amheuaeth ynghylch ymddygiad Cydymaith yr Arglwydd Faer/Cydymaith y Dirprwy Arglwydd Faer/yr Arglwydd Faeres/y Dirprwy Arglwydd Faeres yn ystod ei chyfnod yn y swydd, dylid dweud wrth y Prif Weithredwr, y Swyddog Monitro, Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd ac Arweinydd y Blaid Wleidyddol berthnasol am yr ymddygiad.

13.2 Caiff unrhyw honiad ei drosglwyddo i Weithgor y Cyfansoddiad er mwyn iddo ystyried a oes angen iddo gymryd camau yn ei gylch ar unwaith. Gallai camau gweithredu gynnwys atal yr unigolyn am gyfnod o amser neu geisio penderfyniad gan y cyngor i ddiswyddo'r unigolyn.

**Atodiad A1**
**Atodiad B1**

↥

**Atodiad A1**

**Cyfanswm Hyd Gwasanaeth Cynghorwyr yn Ninas a Sir Abertawe a phob un o'i awdurdodau blaenorol (21.05.2018).**

| Last Name | First Name(s) | Total Time Served | Municipal Year served as LM |
|---|---|---|---|
| Lewis | Richard | 45 years, 0 months, 11 days | 2010-2011 |
| Thomas | Des | 42 years, 6 months, 21 days | 1996-1997 |
| Burtonshaw | June | 35 years, 0 months, 16 days | 2002-2003 |
| Francis-Davies | Robert | 35 years, 0 months, 16 days | 2001-2002 |
| Holley | Christopher | 33 years, 0 months, 19 days | 2006-2007 |
| Sullivan | Gareth | 31 years, 0 months, 14 days | 2008-2009 |
| Hopkins | David | 27 years, 0 months, 19 days | 2016-2017 |
| Downing | Philip | 21 years, 11 months, 13 days | 2017-2018 |
| Phillips | David | 25 years, 0 months, 15 days | Arglwydd Faer presennol |
| Black | Peter | 34 years, 0 months, 18 days | Dirprwy Arglwydd Faer presennol |
| Lloyd | Paul | 21 years, 1 months, 24 days | |
| Child | Mark | 19 years, 0 months, 15 days | |
| Day | Mike | 19 years, 0 months, 15 days | |
| Jones | Mary | 19 years, 0 months, 15 days | |
| Thomas | Graham | 19 years, 0 months, 15 days | |
| Stewart | Robert | 15 years, 0 months, 20 days | |
| Fitzgerald | Wendy | 13 years, 11 months, 11 days | |
| Hood-Williams | Paxton | 13 years, 11 months, 11 days | |
| Kirchner | Erika | 13 years, 11 months, 11 days | |
| Philpott | Cheryl | 13 years, 11 months, 11 days | |
| May | Peter | 11 years, 5 months, 0 days | |
| Matthews | Penny | 10 years, 10 months, 2 days | |
| Doyle | Ryland | 10 years, 0 months, 20 days | |
| Evans | William | 10 years, 0 months, 20 days | |
| Jones | Jeff | 10 years, 0 months, 20 days | |
| Jones | Sue | 10 years, 0 months, 20 days | |
| Morris | Hazel | 10 years, 0 months, 20 days | |
| Richards | Christine | 10 years, 0 months, 20 days | |
| Smith | Paulette | 10 years, 0 months, 20 days | |
| Jardine | Yvonne | 9 years, 11 months, 8 days | |
| Crouch | Sybil | 6 years, 0 months, 18 days | |
| Curtice | Jan | 6 years, 0 months, 18 days | |
| Davies | Nick | 6 years, 0 months, 18 days | |
| Evans | Mandy | 6 years, 0 months, 18 days | |
| Gordon | Fiona | 6 years, 0 months, 18 days | |
| Hale | Joe | 6 years, 0 months, 18 days | |
| Hennegan | Terry | 6 years, 0 months, 18 days | |
| Hopkins | Beverley | 6 years, 0 months, 18 days | |
| James | Lynda | 6 years, 0 months, 18 days | |
| Lewis | Andrea | 6 years, 0 months, 18 days | |
| Lloyd | Clive | 6 years, 0 months, 18 days | |
| Raynor | Jennifer | 6 years, 0 months, 18 days | |
| Smith | Robert | 6 years, 0 months, 18 days | |
| Tanner | Gloria | 6 years, 0 months, 18 days | |
| Thomas | Mark | 6 years, 0 months, 18 days | |
| Tyler-Lloyd | Linda | 6 years, 0 months, 18 days | |
| Walker | Gordon | 6 years, 0 months, 18 days | |
| Walton | Lesley | 6 years, 0 months, 18 days | |
| White | Mike | 6 years, 0 months, 18 days | |
| Anderson | Cyril | 3 years, 0 months, 14 days | |
| Evans | Ceri | 3 years, 0 months, 14 days | |
| King | Elliot | 3 years, 0 months, 14 days | |
| Lewis | Mike | 2 years, 0 months, 16 days | |
| Durke | Mike | 1 years, 0 months, 16 days | |
| Gallagher | Stephen | 1 years, 0 months, 16 days | |
| Gibbard | Louise | 1 years, 0 months, 16 days | |
| Griffiths | Kevin | 1 years, 0 months, 16 days | |
| Helliwell | David | 1 years, 0 months, 16 days | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| James | Oliver | 1 years, 0 months, 16 days | |
| Jones | Lyndon | 1 years, 0 months, 16 days | |
| Jones | Peter | 1 years, 0 months, 16 days | |
| Langstone | Myles | 1 years, 0 months, 16 days | |
| Lewis | Wendy | 1 years, 0 months, 16 days | |
| Mann | Irene | 1 years, 0 months, 16 days | |
| Pritchard | Samuel | 1 years, 0 months, 16 days | |
| Pugh | Alyson | 1 years, 0 months, 16 days | |
| Roberts | Kelly | 1 years, 0 months, 16 days | |
| Rowlands | Brigette | 1 years, 0 months, 16 days | |
| Sherwood | Mary | 1 years, 0 months, 16 days | |
| Stevens | Andrew | 1 years, 0 months, 16 days | |
| Sykes | Mo | 1 years, 0 months, 16 days | |
| Thomas | William | 1 years, 0 months, 16 days | |

↥

**Atodiad B1**

**Pwerau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a Phanel Dyfarnu Cymru**

1 Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ystyried cwynion ynghylch aelodau awdurdodau lleol yng Nghymru sydd wedi torri'r Côd Ymddygiad. Mae'r Ombwdsmon yn ymchwilio i'r fath gwynion o dan ddarpariaethau Rhan 111 Deddf Llywodraeth Leol 2000 a'r Gorchmynion Perthnasol a wnaed gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan y Ddeddf honno. Os bydd yr Ombwdsmon yn penderfynu y dylid ymchwilio i gŵyn, mae pedwar casgliad a nodir o dan Adran 69 Deddf Llywodraeth Leol 2000 y gall yr Ombwdsmon ddod iddynt:

a) Nid oes tystiolaeth y torrwyd Côd Ymddygiad yr awdurdod;
b) Nid oes angen cymryd camau gweithredu mewn perthynas â'r materion a oedd yn destun yr ymchwiliad;
c) Dylid cyfeirio'r mater at Swyddog Monitro'r awdurdod er mwyn i'r Pwyllgor Safonau ystyried y mater;
ch) That the matter be referred to the President of the Adjudication Panel for Wales for adjudication by a tribunal (this generally happens in more serious cases).

2 Yn amgylchiadau c) ac ch) uchod, mae'n ofynnol i'r Ombwdsmon gyflwyno adroddiad ar yr ymchwiliad i'r Pwyllgor Safonau neu Dribiwnlys Panel Dyfarnu Cymru, a'u cyfrifoldeb hwy yw ystyried y dystiolaeth a ganfuwyd gan yr Ombwdsmon, ynghyd ag unrhyw amddiffyniad a gynigir gan yr aelod dan sylw. Eu penderfyniad hwy hefyd yw penderfynu a fu toriad ac, os felly, pa gosb (os unrhyw un) y dylid ei rhoi.

3 Y **gosb uchaf y gall y Pwyllgor Safonau ei rhoi** yw atal aelod am **6 mis.** Wrth ystyried a yw cynghorydd neu aelod cyfetholedig wedi methu cydymffurfio â Chôd Ymddygiad perthnasol yr awdurdod, gall hefyd benderfynu ar y canlynol:

a) Nid oes angen cymryd camau gweithredu o ran y methiant hwnnw;
b) Dylid ceryddu'r cynghorydd neu'r aelod cyfetholedig (ceryddir yr aelod

dan sylw yn gyhoeddus);

c) Dylid atal cynghorydd neu aelod cyfetholedig neu ei atal yn rhannol rhag bod yn aelod o'r awdurdod hwn am gyfnod o hyd at chwe mis.

4 **Y cyfnod mwyaf y gall Tribiwnlys Panel Dyfarnu benderfynu arni** yw **atal person rhag y swydd am 5 mlynedd.** Gall y tribiwnlys:

a) Atal person neu ei atal yn rhannol rhag bod yn gynghorydd neu'n aelod cyfetholedig o'r awdurdod perthnasol dan sylw am gyfnod o hyd at flwyddyn, neu, os yw'n fyrrach, weddill cyfnod y person hwnnw yn y swydd;

b) Anghymwyso person am fod neu ddod (boed trwy etholiad neu fel arall) yn gynghorydd yn yr awdurdod perthnasol hwnnw neu unrhyw awdurdod perthnasol arall am gyfnod **nad yw'n fwy na 5 mlynedd**.

↥

## 2 Sut mae cynghorwyr a swyddogion yn ymdrin â cheisiadau cynllunio

1 **Cyflwyniad**

1.1 Mae'r system gynllunio'n cynnwys gwneud penderfyniadau am ddatblygiad tir a'r defnydd ohono er budd ehangach y cyhoedd, yn unol â darpariaethau'r Cynllun Datblygu, oni bai fod ystyriaethau cynllunio hanfodol sy'n nodi fel arall yn bwysicach na hyn.

2 **Rôl Cynghorwyr**

2.1 Cynghorwyr sy'n penderfynu ar Bolisi Cynllunio'r cyngor. Rhaid iddynt lynu wrth ddarpariaethau'r Côd Ymddygiad yn ystod proses y cynllun datblygu. Mae'n hanfodol eu bod yn arfer eu cyfrifoldebau eu hunain i ddatgan unrhyw gysylltiadau personol megis perchnogaeth tir neu fuddiannau busnes y gall y broses o baratoi cynlluniau effeithio arnynt.

2.2 Pan fydd aelodau o'r Pwyllgor Cynllunio yn penderfynu ar gais cynllunio, byddant yn:

a) Gweithredu'n deg ac yn agored;
b) Ystyried pob cais â meddwl agored;
c) Pwyso a mesur yr holl faterion perthnasol yn ofalus;
ch) Penderfynu ar bob cais yn ôl ei haeddiant;
d) Osgoi cyswllt gormodol â phartïon â diddordeb;
dd) Sicrhau bod y rhesymau dros eu penderfyniadau wedi'u nodi'n glir.

2.3 Nid yw aelodau nad ydynt yn rhan o'r Pwyllgor Cynllunio wedi'u rhwymo gan reolau cyn penderfynu ac yn gyffredinol, maent yn rhydd i:

a) Drafod unrhyw gais cynllunio ag ymgeisydd a/neu grŵp lobïo;
b) Mynd i unrhyw gyfarfod a drefnwyd gan ymgeisydd a/neu grŵp lobïo;
c) Mynd i gyfarfod Cyngor Tref/Cymuned a siarad ynddo;
ch) Trosglwyddo gwybodaeth berthnasol am gais i'r swyddog cynllunio;
d) Ceisio gwybodaeth gan y swyddog cynllunio.

2.4 Rhaid iddynt lynu wrth y Côd Ymddygiad i Aelodau ar bob adeg ac ni allant ddylanwadu'n amhriodol ar swyddogion cynllunio.

## 3 Rôl Swyddogion

3.1 Swyddogaeth swyddogion yw cynghori a chynorthwyo cynghorwyr o ran materion polisi cynllunio a phenderfynu ar geisiadau cynllunio drwy:

- a) Roi cyngor di-duedd a phroffesiynol;
- b) Sicrhau y rhoddir yr holl wybodaeth sy'n angenrheidiol er mwyn gwneud penderfyniad;
- c) Darparu dadansoddiad clir a chywir o'r materion;
- ch) Asesu'r cais yn erbyn polisïau cynllun datblygu'r cyngor a'r holl ystyriaethau pwysig eraill;
- d) Rhoi argymhelliad clir;
- dd) Gweithredu penderfyniadau cynghorwyr mewn pwyllgorau neu yn y cyngor.

## 4 Lobïo

4.1 Mae'n gyffredin iawn i ymgeiswyr neu bartïon eraill â diddordeb ddymuno trafod datblygiad arfaethedig â chynghorwyr cyn iddynt benderfynu ar gais cynllunio.

4.2 Gall hyn helpu dealltwriaeth cynghorwyr o'r problemau a'r pryderon sy'n gysylltiedig â chais. Fodd bynnag, i osgoi peryglu eu sefyllfa cyn iddynt dderbyn yr holl wybodaeth berthnasol, bydd aelodau'r Pwyllgor Cynllunio yn:

- a) Osgoi cwrdd ag ymgeisydd neu ymgeisydd posib ar eu pennau eu hunain cyhyd ag y bo modd;
- b) Osgoi ei gwneud hi’n hysbys a yw'n cefnogi neu'n gwrthwynebu'r cynnig;
- c) Cyfyngu eu hymateb i roi cyngor ar weithdrefnau;
- ch) Peidio â rhoi pwysau ar swyddogion i wneud argymhelliad penodol yn eu hadroddiad;
- d) Cyfarwyddo lobïwyr neu'r sawl sy'n gwrthwynebu swyddogion cynllunio a fydd yn cynnwys cyfeiriad at eu barn lle bo'n berthnasol yn eu hadroddiad;
- dd) Dweud wrth Bennaeth Cynllunio ac Adfywio'r Ddinas neu Aelod y Cabinet am unrhyw lobïo.

4.3 Lle bydd cynghorydd yn teimlo bod ei amhleidioldeb wedi'i beryglu, bydd angen iddo benderfynu a ddylai ddatgan cysylltiad personol a thynnu'n ôl o'r broses benderfynu.

4.4 Nid yw bod yn aelod o Gyngor Tref/Cymuned sydd wedi mynegi barn ar y cais yn peri gwrthdaro ar yr amod bod yr aelod yn cadw meddwl agored. Bydd Swyddog Monitro'r cyngor yn rhoi cyngor ar a ddylid datgan cysylltiad mewn achosion o amheuaeth.

## 5 Trafodaethau ag ymgeiswyr posib

5.1 Anogir cyfarfodydd cyn cyflwyno cais ag ymgeiswyr posib, ond er mwyn osgoi unrhyw gamddealltwriaeth yn hyn o beth, bydd y rhain fel arfer ar lefel swyddogion a:

- a) Lle byddant yn cynnwys aelodau'r Pwyllgor Cynllunio, byddant mewn

fforwm a ragnodir at y diben;

b) Bydd o leiaf ddau swyddog, gan gynnwys Pennaeth Cynllunio ac Adfywio'r Ddinas neu ei gynrychiolydd, yn mynd i gyfarfodydd a allai fod yn ddadleuol;

c) Gwneir nodyn o'r drafodaeth a'i roi ar ffeil a bydd ar gael i'r cyhoedd ei weld ar yr adeg briodol;

ch) Eglurir yn y fath gyfarfodydd mai barn bersonol a dros dro'n seiliedig ar y Cynllun Datblygu'n unig y gellir ei rhoi, ac ni ellir gwneud unrhyw benderfyniadau a fyddai'n rhwymo neu fel arall yn peryglu'r Pwyllgor Cynllunio neu'r cyngor.

## 6 Penderfyniadau sy'n groes i argymhelliad swyddog

6.1 O bryd i'w gilydd, bydd aelodau'r pwyllgorau cynllunio neu'r cyngor yn anghytuno â chyngor proffesiynol a roddir gan y Pennaeth Cynllunio ac Adfywio.

6.2 Yn y fath achosion, nodir y rhesymau dros wrthod argymhelliad y swyddog yn glir a'i gofnodi yng nghofnodion y cyfarfod. Os bydd apêl yn erbyn y fath benderfyniad, bydd swyddogion yn cefnogi'r aelodau perthnasol wrth baratoi tystiolaeth ar gyfer yr apêl.

## 7 Ymweliadau Safle

7.1 Gall ymweliadau safle fod yn ddefnyddiol i nodi nodweddion cynnig a all fod yn anodd eu cyfleu mewn adroddiad ysgrifenedig, ond gallant oedi'r penderfyniad ar gais.

7.2 Lle y bo'n briodol fodd bynnag, aelod ward bydd fel arfer yn gofyn am y rhain ar adeg galw cais i bwyllgor; neu

7.3 Cânt eu hawdurdodi gan y pwyllgor perthnasol neu gan Bennaeth Cynllunio ac Adfywio'r Ddinas neu ei gynrychiolydd, mewn ymgynghoriad â chadeirydd y pwyllgor perthnasol;

7.4 Fel arfer, cynhelir yr ymweliadau safle rhwng cyhoeddi agenda'r pwyllgor a'r cyfarfod pwyllgor.

## 8 Ceisiadau cynllunio gan gynghorwyr a swyddogion y cyngor

8.1 Pan gaiff cais ei gyflwyno gan unrhyw un sy'n gysylltiedig â'r broses gynllunio, bydd yr aelod neu'r swyddog yn gwneud y canlynol:

a) Hysbysu Pennaeth Cynllunio ac Adfywio'r Ddinas a Swyddog Monitro'r cyngor;

b) Ni fydd yn ymwneud â phrosesu nac yn penderfynu ar y cais.

8.2 Bydd Pennaeth Cynllunio ac Adfywio'r Ddinas yn sicrhau y penderfynir ar yr holl geisiadau yn y cyfarfod pwyllgor ac nid dan bwerau dirprwyedig.

## 9 Ceisiadau cynllunio gan y cyngor

9.1 Mae angen caniatâd cynllunio ar y cyngor i wneud neu awdurdodi gwaith datblygu ar dir y mae'n berchen arno. Caiff y ceisiadau hyn eu trin yn yr un ffordd â'r rhai gan ymgeiswyr preifat.

10 **Cwynion**

10.1 Gellir codi unrhyw faterion neu bryderon sy'n codi o'r Côd Ymarfer gyda'r aelod perthnasol o'r Cabinet sy'n gyfrifol am gynllunio, y Cyfarwyddwr Corfforaethol (Lleoedd) neu Bennaeth Cynllunio ac Adfywio'r Ddinas.

10.2 Mae system gwyno ffurfiol ar waith gan y cyngor y gellir ei defnyddio os oes angen a'i chyrchu drwy'r ddolen ganlynol: https://www.abertawe.gov.uk/article/7327/Gwneud-Cwyn

10.3 Gellir cysylltu â Thîm Cwynion y Cyngor drwy ffonio 01792 63 7345.

10.4 Gellir cyfeirio materion ynghylch camweinyddiaeth at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn y cyfeiriad isod:

- 1 Ffordd yr Hen Gae, Pencoed, CF35 5LJ
- 0300 790 0203
- holwch@ombwdsmon-cymru.org.uk
- www.ombudsman-wales.org.uk

↥

## 3 Teitl Arglwydd Faer neu Ddirprwy Arglwydd Faer mewn Gohebiaeth gan Gynghorwyr

1 **Cyflwyniad**

1.1 Mae'r protocol hwn yn rhoi arweiniad i gynghorwyr ar ddefnyddio'r teitl Arglwydd Faer neu Ddirprwy Arglwydd Faer yn eu gohebiaeth. Ystyrir bod torri'r protocol hwn yn achos o dorri'r Côd Ymddygiad Aelodau. Felly, os caiff ei dorri, dylid dweud wrth Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

2 **Arwyddair Personol a/neu Arfbais Ddinesig**

2.1 Ni chaniateir i'r Arglwydd Faer, y Dirprwy Arglwydd Faer na chynghorwyr ddefnyddio arwyddair personol neu ddefnyddio neu ddiwygio'r Arfbais Ddinesig mewn gohebiaeth.

3 **Defnyddio'r teitl Arglwydd Faer neu Ddirprwy Arglwydd Faer**

3.1 Ni chaniateir y defnydd o'r teitl Arglwydd Faer neu Ddirprwy Arglwydd Faer mewn gohebiaeth bersonol.

↥

## 4 Mynediad gan Aelodau'r Cyhoedd i Ystafelloedd Pleidiau Gwleidyddol ac Ardaloedd Eraill i Gynghorwyr

1 **Cyflwyniad**

1.1 Mae'r protocol hwn yn rhoi arweiniad i gynghorwyr ar fynediad i aelodau'r

cyhoedd i Ystafelloedd Pleidiau Gwleidyddol ac ardaloedd eraill cynghorwyr. Ystyrir bod torri'r protocol hwn yn achos o dorri'r Côd Ymddygiad Aelodau. Felly, os bydd toriad, dylid dweud wrth Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

1.2 Er bod mynediad i ystafelloedd wedi'i amlinellu isod, ni ddylid caniatáu i aelodau'r cyhoedd ddefnyddio cyfarpar TGCh y cyngor nac unrhyw gyfleuster arall y mae protocolau eraill y cyngor yn ei wahardd. Caniateir y defnydd o ffonau'r cyngor yn ardaloedd y cynghorwyr ond gyda chaniatâd cynharach y cynghorydd yn unig. Rhaid i'r fath ddefnydd fod yn gymedrol, yn angenrheidiol ac yn briodol.

2 **Mynediad gan Aelodau'r Cyhoedd i Ystafelloedd Pleidiau Gwleidyddol ac Ardaloedd Eraill i Gynghorwyr**

2.1 Ni fydd arweinwyr pleidiau gwleidyddol/dirprwy arweinwyr pleidiau gwleidyddol yn gyfrifol am benderfynu a ddylid caniatáu i aelodau o'r cyhoedd fod heb oruchwyliaeth yn eu Hystafelloedd Pleidiau Gwleidyddol.

2.2 Cynghorir arweinwyr pleidiau gwleidyddol/dirprwy arweinwyr gwleidyddol i ystyried a oes gan yr aelod o'r cyhoedd reswm cyfiawn dros gael ei wahodd i'r Ystafell Pleidiau Gwleidyddol neu beidio.

2.3 Bydd arweinydd perthnasol y blaid wleidyddol/dirprwy arweinydd perthnasol y blaid wleidyddol yn gyfrifol am gadw trefn ar ystafelloedd eu pleidiau gwleidyddol.

↥

## 5 Gohebiaeth Cynghorwyr

**1. Cyflwyniad**

1.1 Mae'r protocol hwn yn rhoi arweiniad i gynghorwyr ar ddefnyddio logos. delweddau personol a/neu liwiau pleidiau gwleidyddol/grwpiau gwleidyddol yn eu gohebiaeth.

1.2 Ni ddylai cynghorwyr ddefnyddio cyfleusterau ac adnoddau'r cyngor, gan gynnwys penawdau llythyrau a gohebiaeth arall i hyrwyddo'u grŵp gwleidyddol na dibenion eu plaid wleidyddol.

1.3 Ystyrir bod torri'r protocol hwn yn achos o dorri'r Côd Ymddygiad Aelodau. Rhaid dweud wrth Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru am unrhyw doriad o'r fath.

**2. Plaid Wleidyddol/Enwau/Lliwiau/Logos a/neu Ddelweddau Personol Grwpiau Gwleidyddol Cynghorwyr**

2.1 Ni fydd y cyngor yn gallu argraffu na chaniatáu i'w offer/gyfleusterau gael eu defnyddio i argraffu (neu gyhoeddi) gohebiaeth ar gyfer cynghorwyr sy'n cynnwys eu plaid wleidyddol/enwau /lliwiau/logos grwpiau gwleidyddol a/neu ddelweddau personol.

**3. Posteri Cymorthfeydd Cynghorwyr**

3.1 Caniateir posteri cymorthfeydd cynghorwyr a argraffwyd gan y cyngor ar yr amod eu bod naill ai'n cael eu hargraffu gan ddefnyddio'r lliwiau corfforaethol neu mewn du a gwyn.

3.2 Caniateir llun lliw o'r cynghorydd ar gyfer posteri cymorthfeydd y cynghorydd; fodd bynnag, ni chaniateir logo/enw'r blaid/grŵp gwleidyddol.

↥

## 6 Protocol Ymateb i Ohebiaeth Cynghorwyr

### 1. Cyflwyniad

1.1 Mae'r llyfryn "Gwasanaethau Cwsmeriaid - Canllawiau i staff" yn amlinellu'r canllawiau ymateb i geisiadau cwsmeriaid. Nid yw'r canllawiau hyn yn gwahaniaethu rhwng aelodau'r cyhoedd a chynghorwyr. Mae'r protocol hwn yn gwahaniaethu rhwng cynghorwyr a'r cyhoedd.

### 2. Ceisiadau am Wasanaeth

2.1 Weithiau, mae'n debygol y bydd cynghorydd yn mynd at swyddog yn uniongyrchol er mwyn gwneud cais am wasanaeth (e.e. adrodd am olau stryd diffygiol, gofyn am apwyntiad etc.) Ar y fath achlysuron, nid yw'r protocol yn berthnasol. Bydd y swyddog yn trosglwyddo'r Cais am Wasanaeth i'r is-adran berthnasol ac ymdrinnir ag ef yn y ffordd arferol.

### 3. Canllawiau Ymateb i Geisiadau Cynghorwyr

3.1 Mae'r canllawiau hyn yn berthnasol i bob math o ohebiaeth (ysgrifenedig neu lafar) gan gynnwys y rhai a dderbynnir yn y Gymraeg.

3.2 Os gellir rhoi ymateb o fewn 5 niwrnod gwaith clir, nid oes angen cydnabod bod y cais wedi'i dderbyn.

3.3 Lle nad yw hyn yn bosib (e.e. oherwydd cymhlethdod), anfonir cydnabyddiaeth o fewn y 5 niwrnod gwaith clir. Gall y gydnabyddiaeth fod yn llythyr ysgrifenedig neu'n e-bost a rhaid iddi gynnwys y rhesymau dros yr oedi ac amserlen realistig ar gyfer yr ymateb.

3.4 Mae'r canllawiau hyn yn berthnasol i bob math o ohebiaeth (ysgrifenedig neu lafar) gan gynnwys y rhai a dderbynnir yn y Gymraeg.

↥